

Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref

Mae'r nodyn yma'n cynnwys crynodeb lefel uchel o'r Datganiad Cynllunio ar gyfer ailddatblygiad Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref.

Trosolwg

Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio llawn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) ar gyfer ailddatblygiad safle Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref i ddatblygu ysgol gynradd newydd.

I grynhoi, mae'r cais cynllunio yn ceisio caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig canlynol:

- Dymchwel adeiladau presennol yr ysgol;
- Adeiladu ysgol unllawr newydd i gynnwys ystafelloedd dosbarth ar gyfer disgyblion cynradd a meithrin, manau canolog, manau gweinyddu, prif neuadd a chegin;
- Manau a chyfleusterau awyr agored i gynnwys manau wedi'u tirweddu, amffitheatr a manau chwarae caled a meddal;
- 2 Ardal Gemau Aml-ddefnydd;
- 1 maes parcio â lle i 23 o leoedd parcio, gyda 10% yn ddarpariaeth gwefru cerbydau trydan;
- 32 lle parcio beiciau / uned storio beiciau;
- Casglu gwastaff;
- Tirweddu; a
- Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy.

Mae disgwyl y byddai'r datblygiad, sy'n amodol ar ganiatâd cynllunio llwyddiannus, yn cael ei gyflawni er mwyn bodloni'r targed o ran agor ym mis Medi, 2023.

Angen am ddatblygiad

Mae'r ysgol bresennol mewn ardal ble mae llawer o dai yn cael eu hadeiladu mewn cyfnod byr ac mae angen buddsoddiad arni i fod yn gwbl hygyrch a chyrraedd safon Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Trwy ddarparu adeilad ysgol newydd a chyfleusterau ategol, byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu lle i 270 o ddisgyblion 3-11 oed (240 o ddisgyblion, a dosbarth meithrin â 30 o leoedd).

Cyd-destun y Safle

Mae safle'r cais am y datblygiad arfaethedig yn cynnwys tir Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, sydd wedi'i lleoli i'r dwyrain o Heol Sant Illtyd, oddi ar y B4595, sef y prif lwybr trwy Bentre'r Eglwys.

Dydy'r safle ddim yn destun unrhyw ddynodiadau statudol sylweddol mewn perthynas â'r amgylchedd, tirwedd hanesyddol, dynodiadau tirwedd neu ecoleg, a dydy'r rhain ddim yn berthnasol ger y safle chwaith.

Mae'r safle mewn ardal datblygiad risg uchel o ran glo. Serch hynny, mae arolygon ac asesiadau safle, a gafodd eu cynnal ym mis Mehefin 2021, wedi dod i'r casgliad nad oes risgiau ar y safle. Mae posibilrwydd isel o lifogydd ar y safle. Ystyrir bod gan y safle, ar y cyfan, sensitifrwydd amgylcheddol isel a'i fod yn addas i'w ddatblygu.

Y broses cyn-ymgeisio

O'r cychwyn cyntaf, mae dull cydweithredol wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer y broses cyn-ymgeisio, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol. Ymgynghorwyd ag adran Gynllunio RhCT ac ymgynghorai technegol, gan gynnwys Priffyrdd a'r swyddog Systemau Draenio Cynaliadwy, trwy gydol y prosesau datblygu dyluniad a pharatoi'r cais cynllunio.

Asesiad Cynllunio

Mae'r Datganiad Cynllunio yn cynnwys manylion llawn yr asesiad cynllunio yn erbyn ystyriaethau polisi allweddol o ddefnydd y datblygiad arfaethedig; dyluniad; cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd; trafndiaeth a mynediad; amwynder preswyl; sŵn; bioamrywiaeth a gwarchod natur; tirwedd a choed; llifogydd; amodau'r tir; cyfleustodau a gwastraff.

Ystyrir bod y cynigion yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol (y Cynllun Datblygu Lleol, Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru). Ar y cyfan, byddai'r datblygiad arfaethedig yn gweithredu'n gyfleuster carbon sero-net newydd ar safle presennol yr ysgol gan ddarparu nifer o fuddion cadarnhaol fel sydd wedi'u nodi yn yr asesiad cynllunio. O ganlyniad i hyn, dylai caniatâd cynllunio gael ei roi.